



ysgol ardudwy

Polisi Iaith

Dyddiad Mabwysiadu : 24/10/18

Dyddiad Adolygu : 23/10/2021

Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol: *Anwen Hughes*

Dyddiad: 24/10/2018

Llofnod y Pennaeth: *H A Williams*

Dyddiad: 24/10/2018



Ysgol ardudwy

POLISI IAITH

Categoriâu iaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn unol â chategoriâu Cynulliad Cenedlaethol Cymru mae Ysgol Ardudwy'n Ysgol Ddwieithog Categori 2A. (Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

Gweithrediad y Polisi iaith

Mae Polisi iaith yr Ysgol yn ddilyniant naturiol i Bolisi iaith Ysgolion Cynradd y dalgylch. Amcan y polisi yw datblygu gallu disgyblion yr ysgol i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas maent yn rhan ohoni, sydd yn aros i raddau helaeth yn Gymraeg a Chymreig. Cymry cynhenid a dysgwyr rhugl yw mwyafrif y disgyblion, ond ceir nifer o hwyrddfyodiaid a disgyblion sydd a'u gwybodaeth o'r Gymraeg yn parhau i ddatblygu.

Gymraeg a Chymreig fydd ethos yr ysgol a bydd bywyd yr ysgol a gweithgareddau cymdeithasol yn fodd i ddatblygu cydbwysedd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a sicrhau lle priodol i'r ddwy iaith. Gymraeg fydd iaith weinyddol yr ysgol.

Y Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau

Bydd pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn sefyll arholiadau allanol yn y ddwy iaith yn ôl canllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

O ran y Gymraeg bydd y Cymry cynhenid a'r dysgwyr rhugl yn dilyn cwrs Gymraeg Iaith Gyntaf a'r dysgwyr eraill yn dilyn cwrs Gymraeg Ail iaith. Rhoddir cymorth i ddisgyblion sydd yn newydd i'r ardal ac sydd â dim gwybodaeth o'r Gymraeg.

Cyfrwng Dysgu pynciau eraill

Bydd y Cymry cynhenid a dysgwyr rhugl yn dilyn y rhan fwyaf o'u cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Diogelir hyfedredd y disgyblion yn y Saesneg drwy gyflwyno terminoleg a geirfa allweddol yn Saesneg yn y pynciau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio ambell adnodd Saesneg mewn rhai gwersi.

Bydd hwyrddfyodiaid diweddar ac yn aml disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig sydd a'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn dilyn y pynciau mwy ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'u hyfedredd yn y Gymraeg. Byddant yn derbyn terminoleg a geirfa allweddol yn y Saesneg hefyd. Dwyieithog fydd cyfrwng pynciau eraill gyda'r gwaith ysgrifenedig yn y Saesneg, a Chymraeg fydd iaith anffurfiol y dosbarth.

Gwybodaeth a Gohebiaeth â Rhieni

Bydd pob gohebiaeth gyffredinol o'r ysgol i'r rhieni'n ddwyieithog ond gohebir a darperir adroddiadau blynyddol i rieni unigol yn ôl iaith y cartref.